OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2024 (Cy.208) (C.65)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud - - 31 Gorffennaf 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 275(2) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 14 Awst 2002

2. Mae'r darpariaethau canlynol o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn dod i rym ar 14 Awst 2002 mewn perthynas â Chymru, sef—

(a) adran 154(6)

(b) adran 274 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Rhan II o Atodlen 31 (Diddymiadau a dirymiadau).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

31 Gorffennaf 2002

(**1**) 2000 p. 38.
(**2**) 1998 p. 38.